cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Ffurflen ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr ar sail incwm y cartref 2024/25

## Am y ffurflen hon

**Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?**

Dylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn dymuno newid eich cais am gyllid i fyfyrwyr, fel ei fod yn seiliedig ar incwm eich cartref.

Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag, ni allwn brosesu'ch cais. Os na fydd cwestiwn yn berthnasol i chi, dylech nodi 'Dim' neu 'Amh' fel yr ateb.

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

**Pa adrannau ddylech chi eu llenwi??**

Bydd angen i bob myfyriwr lenwi adrannau **1, 2**, **4** a **5** a darllen, llofnodi a dyddio'r **datganiad**.

Dim ond os ydych yn dymuno gwneud cais am Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a/neu Grant Gofal Plant y dylech chi lenwi adran **3**.

Rhaid i'ch cais i gael eich cyllid i fyfyrwyr yn seiliedig ar incwm eich cartref, neu'ch cais am Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a/neu Grant Gofal Plant **gyrraedd cyn pen 9 mis o ddechrau'ch blwyddyn academaidd**.

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

## 1 eich manylion personol

**1.1 Cyfeirnod Cwsmer**

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**1.2 Manylion personol**

Teitl

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni

Diwrnod ☐☐ - Mis ☐☐ - Blwyddyn ☐☐☐☐

t Pan fyddwch yn gweld yr eicon hwn, mae'n golygu bod angen i chi roi tystiolaeth atodol i ni. Dangosir manylion y dystiolaeth fydd yn angenrheidiol pan welir yr eicon.

# cwestiynau ariannol

## Eich Incwm

**2.1 Beth yw cyfanswm yr incwm trethadwy heb ei ennill, cyn didyniadau, yr ydych yn disgwyl ei gael yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25?**

**dylech** gynnwys unrhyw incwm o:
- log gros gan fanc neu gymdeithas adeiladu (heb gynnwys ISAs)
- eiddo, gosod neu rent
- difidendau neu fuddsoddiadau
- ymddiriedolaethau neu nawdd
- taliadau eraill a geir am fynychu'r cwrs

**ni ddylech** gynnwys unrhyw:
- enillion o waith amser llawn neu waith rhan-amser
- Benthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant y gallech eu cael
- taliadau y byddwch yn eu cael gan rieni dan gyfamod
- Bwrsariaethau Hyfforddi Athrawon
- Bwrsariaethau Addysg Uwch (ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal)
- Gwobrau bownti a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn
- Taliadau anabledd neu analluedd

£

Beth yw ffynhonnell yr incwm hwn?

## Taliadau gan eich cyflogwr

**2.2 A fyddwch yn gyflogedig yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25?**

☐ **Na** – ewch i 2.5

☐ **Byddaf**

**2.3 A fydd eich cyflogwr yn eich rhyddhau yn benodol er mwyn i chi fynychu'ch cwrs ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25?**

☐ **Na fydd**

☐ **Bydd** – faint fydd eich cyflogwr yn eich talu am yr amser y byddwch yn ei dreulio yn mynychu'r cwrs yn ystod y cyfnod hwn? £

**2.4 A fyddwch chi neu'ch cyflogwr yn talu unrhyw arian i gronfa bensiwn ar eich rhan yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25?**

☐ **Na fyddaf/Na fydd**

☐ **Byddaf/Bydd** – faint yn ystod y cyfnod hwn? £

## Plant Dibynnol

**2.5 A fydd gennych chi unrhyw blant a fydd yn ddibynnol arnoch yn ariannol yn llwyr neu'n bennaf yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25?**

☐ **Na** – ewch i 2.6

☐ **Bydd**

**2.5.1 Nodwch fanylion y plant dibynnol**

Wrth nodi incwm y plentyn, dylech gynnwys ei incwm o bob ffynhonnell ar ôl cyfraniadau treth incwm a nawdd cymdeithasol yn ystod blwyddyn dreth 2022-23.

**Dylech** Gynnwys unrhyw incwm y bydd y plentyn yn ei gael trwy:
- weithio
- llog a enillir ar gynilion
- buddsoddiadau
- unrhyw daliadau cynhaliaeth

**Ni ddylech** gynnwys incwm gan:
- Ymddiriedolaethau Plant y Llywodraeth
- Budd-dal Plant y Wladwriaeth
- Credydau Treth Plant
- Elfen plentyn y Credyd Cynhwysol

**Rhaid i chi ddarparu lungopi o'u Tystysgrifau Geni a thystiolaeth o Gredydau Treth Plant, elfen plentyn naill ai'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol a/neu Fudddaliadau Plant ar gyfer pob plentyn a enwir.**
**Os oes gennych chi fwy na dau blentyn dibynnol, nodwch fanylion pob plentyn ychwanegol ar ddarn o bapur ar wahân, a'u gosod wrth y ffurflen hon.**

Enw llawn plentyn 1

Perthynas gyda chi

Dyddiad geni
Diwrnod - Mis - Blwyddyn

Gyda phwy mae'n byw?

Incwm o bob ffynhonnell ar ôl treth incwm a nawdd cymdeithasol £

Enw llawn plentyn 2

Perthynas gyda chi

Dyddiad geni
Diwrnod - Mis - Blwyddyn

Gyda phwy mae'n byw?

Incwm o bob ffynhonnell ar ôl treth incwm a nawdd cymdeithasol £

## Cymorth Ariannol Ychwanegol

**2.6 A ydych yn dymuno gwneud cais am unrhyw rai o'r canlynol:**
- **Lwfans Dysgu i Rieni**
- **Grant Oedolion Dibynnol**
- **Grant Gofal Plant?**

Am wybodaeth bellach am y Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol neu'r Grant Gofal Plant, trowch at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

☐ **Nac ydw** – ewch i adran 4

☐ **Ydw** – ewch i adran 3

## 3 Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

**3.1 A ydych yn unig riant?**

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw** – ewch i 3.4

**3.2 A ydych dan 25 oed, yn byw gyda phartner ac yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu'r Lwfans Dysgu i Rieni?**

☐ **Nac ydw** – ewch i 3.4
☐ **Ydw** – os ydych chi'n gadael gofal - ewch i 3.3

**3.2.1 A wnaethoch chi gychwyn eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018?**

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw** – ewch i 3.4

**3.3 Nodwch gyfanswm a amcangyfrifir eich incwm ar ôl didyniadau treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 ar gyfer:**

| Chi | Eich partner |
|---|---|
| £ | £ |

**Faint o hwn fydd yn Gredyd Treth Plant neu'n elfen plentyn o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25?**

| Chi | Eich partner |
|---|---|
| £ | £ |

**Gwneud cais am Grant Gofal Plant**

I wneud cais am Grant Gofal Plant, yn ogystal â llenwi'r ffurflen hon, **rhaid** i chi lenwi Ffurflen Grant Gofal Plant (CCG1). Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**3.4 Atebwch y cwestiwn hwn os ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant.**
**Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, a ydych chi neu'ch cymar, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn, neu'n disgwyl derbyn:**

- **elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol; neu**
- **Ofal Plant Di-dreth gan HMRC; neu**
- **Lwfans Gofal Plant gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)?**

☐ **Nac ydw/Nac ydy**
☐ **Ydw/Ydy** – Ni allwch gael Grant Gofal Plant os ydych yn derbyn cefnogaeth gofal plant gan un o'r ffynonellau hyn ar yr un pryd.
Dim ond os byddwch yn stopio hawlio cefnogaeth gan unrhyw un o'r ffynonellau uchod allwch chi wneud cais am Grant Gofal Plant.

**Gwneud cais am Grant Oedolion Dibynnol**

Nid ydych yn gymwys i wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol ar gyfer:

- eich oedolyn dibynnol arall os yw ei incwm yn fwy na £3,923 yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25.
- eich partner sy'n cyd-fyw â chi os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018, a'ch bod dros 25 oed ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs.

**3.5 A ydych chi'n gwneud cais am Grant Oedolion Dibynnol?**

☐ **Nac ydw** – ewch i 3.9
☐ **Ydw**

**3.6 Pwy yw'ch oedolyn dibynnol?**

☐ Eich gŵr
Eich gwraig
Eich partner sifil
Eich partner – ewch i 3.9
☐ oedolyn dibynnol arall

**3.7 A fydd incwm eich oedolyn dibynnol arall yn fwy na £3,923 ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25?**

☐ **Na fydd**

☐ **Bydd**

**3.8 Nodwch incwm eich oedolion dibynnol eraill ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.**

**Incwm**

Yr holl gyflog ac incwm gan hunangyflogaeth (dylech gynnwys incwm gan eiddo) £

Holl incwm o bensiynau, yn cynnwys preifat, galwedigaethol a gwladwriaeth £

Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan.

Yr holl incwm trethadwy gros o log, buddsoddiadau a difidendau £

Budd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth £

Yr holl incwm trethadwy arall (Er enghraifft, arian a dderbynioch fel iawndal neu o ddiswyddiad. Rhaid i chi gynnwys swm llawn eich taliad diswyddo, hyd yn oed os nad ydych yn disgwyl treth arno.) £

**Didyniadau**

Cyfraniadau i gynllun pensiwn preifat a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) £

Treuliau a ganiateir, yr hawliwyd gostyngiad yn y dreth arnynt £

**3.9 Dim ond os cychwynnoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 y dylech chi ateb y cwestiwn hwn.**

**Nodwch fanylion yr ymrwymiadau ariannol sydd gennych chi cyn dechrau'r cwrs, y byddwch chi, eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner yn parhau i'w talu yn ystod y flwyddyn academaidd.**

Byddai'r ymrwymiadau ariannol i'w cynnwys yn cyfateb â'r canlynol:

- yswiriant y cartref
- yswiriant meddygol
- premiymau yswiriant bywyd
- ad-daliadau morgais
- ad-daliadau dan gytundeb benthyca megis benthyciad gan Gymdeithas Adeiladu i wella'r cartref, neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer unigolyn dibynnol.

Math

£

Math

£

Math

£

**Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch dudalennau'r nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon.**

## 4 am eich teulu

**Efallai bod eich rhiant(rhieni) neu'ch partner wedi cael ffurflen ar wahân yn gofyn iddynt ddarparu manylion eu hincwm. Rhaid llenwi hon hefyd a'i dychwelyd atom.**

**4.1 A ydych yn fyfyriwr annibynnol?**

- ☐ Ydw – ewch i 4.2
- ☐ Nac ydw – ewch i 4.3

**4.2 Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi**

- ☐ Rydych yn 25 neu'n hŷn
- ☐ Rydych yn gofalu am blentyn dan 18
- ☐ Rydych yn briod/mewn partneriaeth sifil
- ☐ Rydych wedi bod yn cynnal eich hun am 3 blynedd neu fwy
- ☐ Rydych yn amddifad
- ☐ Nid oes gennych unrhyw gyswllt â'ch rhieni, ac ni fydd hyn yn newid
- ☐ Mae'n amhosibl/anymarferol cysylltu â'ch rhieni, neu iddynt anfon arian i chi

**Os ydych chi wedi ticio unrhyw un o'r blychau uchod, byddwn yn cysylltu â chi am dystiolaeth ac, yn amodol i hyn, efallai y byddwch yn cael eich ystyried i fod yn annibynnol. Nawr ewch i'r datganiad ar dudalen 9.**

### 4.3 Gyda pha riant yr ydych yn byw fel arfer, neu y byddwch yn cael y rhan fwyaf o gyswllt ag ef neu hi?

Mae'r aelodau canlynol o'r teulu yn cyfrif at ddibenion asesu incwm:

- Eich rhieni naturiol neu fabwysiadol (os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi)
- Eich rhiant a'i bartner (os oes ganddo/ganddi un)

Caiff partner eich rhiant ei ddiffinio fel:

- Eich llysfam neu'ch llystad
- Partner eich rhiant o'r un rhyw neu o'r rhyw arall os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod neu mewn partneriaeth sifil

- [ ] Mam
- [ ] Tad
- [ ] Y ddau – ewch i Adran 5
- [ ] Dim un – ewch i Adran 5

### 4.4 Beth yw statws priodasol y rhiant hwn?

t Gofynnwch i'ch rhiant anfon tystiolaeth o'i statws priodasol os yw wedi gwahanu, wedi ysgaru neu os yw ei bartneriaeth sifil wedi cael ei diddymu.

Rhaid anfon copi o'i:

- Archddyfarniad absoliwt
- Gorchymyn terfynu
- Llythyr gan ei gyfreithiwr yn cadarnhau ei statws
- Eich amodol neu gorchymyn terfynol

- [ ] Sengl
- [ ] Yn byw gyda phartner
- [ ] Priod/partneriaeth sifil
- [ ] Wedi gwahanu t
- [ ] Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu t
- [ ] Gŵr neu wraig weddw/partner sifil sy'n fyw

## 5 cymorth arbennig

**Os yw un o'r categorïau isod yn berthnasol, gallwch ymgeisio am Gymorth Arbennig.**

**5.1 I ymgeisio am Gymorth Arbennig, ticiwch y blwch(blychau) sy'n berthnasol i chi. Rhaid i chi anfon tystiolaeth ategol gyda'ch cais.** e

- ☐ Rwy'n rhiant unigol (neu'n rhiant maeth unigol) gyda phlentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch
- ☐ Mae gennyf bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu'r ddau ohonom yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch
- ☐ Mae gennyf anabledd ac rwy'n gymwys am y Premiwm Anabledd neu'r Premiwm Anabledd Difrifol
- ☐ Rwy'n fyddar ac yn gymwys i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl
- ☐ Rwyf wedi fy nhrin fel rhywun sy'n analluog i weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos neu fwy
- ☐ Mae gennyf anabledd ac rwy'n gymwys am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm
- ☐ Rwy'n 60 oed neu hŷn
- ☐ Mae gen i hawl i Fudd-dal Tai neu'r elfen dai o Gredyd Cynhwysol
- ☐ Mae gen i hawl i Daliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)
- ☐ Mae gen i hawl i Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- ☐ Mae gen i hawl i Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)
- ☐ Rwy'n aros i fynd yn ôl i gwrs wedi cymryd seibiant gyda chaniatâd o'r cwrs hwnnw oherwydd salwch neu gyfrifoldeb gofal sydd wedi dod i ben
- ☐ Dim un o'r uchod

**Nawr dylech ddarllen, llofnodi a dyddio'r datganiad ar y dudalen nesaf**

## datganiad

- **Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Os nad yw, deallaf y gellir gwrthod cymorth ariannol i mi, ac y gallai cymorth a gefais gael ei dynnu yn ôl ac y gallwn gael fy erlyn.**
- **Os byddaf yn cael gordaliad o ran y cymorth ariannol, rydw i'n cytuno bod rheidrwydd arnaf i ad-dalu'r swm hwn yn llawn.**
- **I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch, ewch i www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llofnodi'r ffurflen hon. Neu, gallwch ofyn am gopi trwy ysgrifennu at Student Loans Company Ltd (SLC) yn 10 Clyde Place, Glasgow, G5 8DF neu'n ffonio ni ar 0300 200 4050.**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

**X**

Eich llofnod

Diwrnod - Mis - Blwyddyn

## y camau nesaf

Unwaith y bydd eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio, dylech ei dychwelyd at:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn talu'r pris postio cywir**

# nodiadau ychwanegol

**Os ydych yn darparu gwybodaeth ychwanegol, dylech nodi'n glir ar gyfer pa adran a chwestiwn y'i darperir.**